

## YSGOL PARC Y BONT

### Cytundeb Rhieni er mwyn i ddisgyblion fynychu cyfarfod byw ar-lein



Deallaf y caiff fy mhlentyn ganiatâd i ymuno â sesiwn ar-lein yr ysgol ar y ddealltwriaeth y bydd fy mhlentyn fel dysgwr a minnau fel rhiant yn ymrwmo i`r cod ymddygiad:

- 1) Rwyf yn cytuno i ddarllen a thrafod y cod ymddygiad ar y cyd gyda fy mhlentyn.
- 2) Byddaf yn sicrhau y bydd fy mhlentyn wedi gwisgo'n briodol ar gyfer y sesiwn. Deallaf nad ydy gwisgo pyjamas/dillad nos yn cael ei ystyried yn wisg briodol.
- 3) Byddaf yn ceisio sicrhau bod fy mhlentyn mewn ystafell addas e.e. ystafell fyw neu ystafell fwyta neu ystafell deuluol arall.
- 4) Byddaf yn ceisio sicrhau nad oes dim arall yn digwydd yn yr ystafell e.e. byddaf yn sicrhau fod y teledu wedi ei ddiffodd ac nad oes dim yn tynnu sylw neu darfu ar y sesiwn. Byddaf yn gwneud fy ngorau i sicrhau fod awyrgylch yr ystafell yn addas i`m plentyn gael sesiwn hefo grŵp o ddisgyblion eraill.
- 5) Deallaf fod yr un safonau ymddygiad yn ddisgwyliedig ag sy'n ddisgwyliedig yn yr ysgol. Deallaf y bydd yr athro yn torri cysylltiad os oes unrhyw ymddygiad amhriodol gan fy mhlentyn.
- 6) Byddaf yn gwneud yn siwr **nad ydy unrhyw ran o'r sesiwn yn cael ei recordio** ar unrhyw ddyfais gan unrhyw un yn y cartref.
- 7) Ni fyddaf ar unrhyw gyfrif yn ymuno nac yn tarfu ar y sesiwn (ag eithrio pan yn cynorthwyo fy mhlentyn i ymuno â'r sesiwn ar-lein os oes rhaid). **Mae hyn yn cynnwys peidio bod ar y sgrin o gwbl.**
- 8) Os oes gen i bryder, rydw i'n deall nad yn ystod y sesiwn y dylid mynegi hynny. Gallaf drafod unrhyw bryder trwy gysylltu â'r ysgol ar ôl y sesiwn.

Byddaf yn cytuno i'r cytundeb yma drwy lenwi ffurflen ar-lein sydd wedi cael ei hanfon gan yr ysgol.

## YSGOL PARC Y BONT

### Cytundeb Disgybl ar gyfer mynychu cyfarfod byw ar-lein



*Deallaf y caf ganiatâd i ymuno â sesiynau a chyfarfodydd ar-lein yr ysgol ar yr amod fy mod yn parchu'r côd ymddygiad:*

- 1) Byddaf yn gwisgo`n briodol ar gyfer y sesiwn. Dydi gwisgo pyjamas / dillad nos ddim yn cael ei ystyried yn wisg briodol.
- 2) Mi fyddaf yn ceisio trefnu fy mod mewn ystafell addas e.e.ystafell fyw neu ystafell fwyta - neu unrhyw ystafell ble mae fy nheulu. Ni ddylwn fod yn fy ystafell wely.
- 3) Byddaf yn ceisio sicrhau na fydd swm na dim arall yn digwydd yn yr ystafell fydd yn tarfu ar y sesiwn.
- 4) Byddaf yn rhoi 'mute' ar fy meicroffon pan fydd yr athro neu athrawes yn gofyn i mi wneud, neu bydd yr athro neu athrawes yn gwneud hynny drosta i.
- 5) Byddaf yn gwneud yn siwr nad ydy unrhyw ran o`r sesiwn yn cael ei recordio ar unrhyw ddyfais.
- 6) Bydd rhaid i mi ymddwyn fel y byddwn yn ymddwyn a siarad fel petawn yn yr ysgol gan mai yr un rheolau fydd mewn lle. Byddaf yn gorfod gadael y sesiwn petawn yn camymddwyn.
- 7) Byddaf yn gwranddo yn ofalus, yn ymuno yn brydlon a chymryd rhan pan mae'r athro / athrawes yn gofyn i mi
- 8) Rydw i am gael hwyl a mwynhau y profiad newydd yma!